
Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government
TACLO TIPIO CYMRU
GWASTRAFF BUSNES
YDYCH CHI'N EI WAREDU'N GYFRIFOL?
FRAGILE
#DIMMWY
OESGUSODION
SBWRIEL
@FtAW
/FtAWales
Mae'r poster hwn hefyd ar gael yn Saesneg.

# YDYCH CHI'N CAEL GWARED Â'CH SBWRIEL YN GYFRIFOL?

Mae angen storio a gwaredu unrhyw wastraff sy'n cael ei gynhyrchu neu ei gludo gan eich busnes yn unol â'r ddeddfwriaeth Dyletswydd Gofal Gwastraff - Adran 34 Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990.

## O dan y ddeddfwriaeth, rhaid i chi sicrhau:

- Nad yw gwastraff yn cael ei waredu neu ei drin yn anghyfreithlon heb drwydded
- Nad yw gwastraff yn dianc o'ch rheolaeth
- Dim ond i "berson awdurdodedig" y mae gwastraff yn cael ei drosglwyddo
- Pan drosglwyddir y gwastraff, mae disgrifiad ysgrifenedig llawn yn cyd-fynd ag ef

### 'Ond nid yw fy musnes yn cynhyrchu unrhyw wastraff'

Mae hynny'n annhebygol iawn gan fod gwastraff busnes yn cynnwys...

- Post a dderbyniwch
- Bwyd y mae eich staff yn ei fwyta neu ei yfed yn yr adeilad
- Sbwriel o'ch biniau
- Ysgubiadau llawr
- Deunyddiau glanhau

### Gwaredu gwastraff - dau opsiwn:

**Opsiwn 1**
**gwaredu'ch gwastraff eich hun**

- Cofrestrwch fel cludydd gwastraff haen isaf (oni bai eich bod yn cael gwared ar wastraff adeiladu neu ddymchwel, sy'n gofyn am gofrestriad haen uwch) gyda Cyfoeth Naturiol Cymru
- Ewch â'r gwastraff i safle sydd wedi'i awdurdodi i'w dderbyn

**Opsiwn 2**
**gofynnwch i rywun arall ei gasglu a'i waredu ar eich rhan**

- Defnyddiwch wasanaethau gwastraff busnes eich cyngor neu
- Defnyddiwch fusnes sydd wedi'i gofrestru fel cludydd gwastraff haen uchaf

Pa bynnag opsiwn a ddewiswch, rhaid i chi gwblhau a chadw dogfennaeth gwastraff (h.y. nodiadau trosglwyddo). Efallai y bydd swyddog yn gofyn i chi ddangos y cofnodion hyn ar unrhyw adeg.

**AM RAGOR O WYBODAETH, EDRYCHWCH AR GOD YMARFER DYLETSWYDD GOFAL GWASTRAFF.**

### OEDDECH CHI'N GWYBOD?

- Rhaid i chi wirio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru bod y person neu'r cwmni rydych chi'n ei ddefnyddio i fynd â'ch gwastraff i ffwrdd yn gludwr gwastraff cofrestredig. Os na wnewch hynny fe allech gael eich erlyn a derbyn dirwy ddiderfyn.
- Os ydych chi'n cludo gwastraff, heb drwydded cludo gwastraff, gellir eich erlyn a derbyn dirwy ddiderfyn.
- Gallwch hefyd gael dirwy am fethu â chynhyrchu nodiadau trosglwyddo gwastraff.

**EICH DYLETSWYDD CHI YW GOFALU**

**I GAEL RHAGOR O WYBODAETH AM GOFRESTRU EWCH I**
**CYFOETHNATURIOL.CYMRU/GWIRIWCHDRWYDDEDGWASTRAFF**